

Amserlen

Penderfyniadau

Panel Trwyddedu (Tacsi)

I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2019

Gwnaeth y Panel Trwyddedu Tacsis y penderfyniadau canlynol ar 1 Hydref 2019, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: D Davies (Cadeirydd), J Hughes, H Thomas, J Cleverly, Y Forsey, M Kellaway, T Suller

Rhan 2

Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

LIC PAN 10/19

Trwyddedau Llogi Preifat / Cerbydau Hacni

Penderfyniad

Rhoddodd y Panel Tacsis ystyriaeth ofalus i'r ceisiadau perthnasol, gan gynnwys yr holl dystiolaeth a roddwyd ger eu bron gan yr holl bartïon dan sylw a gwnaed y penderfyniadau canlynol:-

Gyrrwr CO'B

Nid yw'r ymgeisydd yn bresennol. Mae'r Pwyllgor wedi gohirio'r cais.

1. Gyrrwr MH

Rhoddodd aelodau'r Panel ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth a roddwyd ger eu bron ynglŷn â MH. Penderfynodd y Panel atal ei Drwydded am gyfnod o 10 diwrnod gyda gofyniad i ailsefyll y Prawf Gwybodaeth. Bydd ei drwydded yn parhau i gael ei gohirio nes iddo basio'r prawf.

2. Gyrrwr MI

Rhoddodd y Panel ystyriaeth ofalus i'w gais a phenderfynodd roi Trwydded i MI ar yr amod ei fod yn pasio'r cwrs Pass Plus.

3. Gyrrwr TA

Rhoddodd y Panel ystyriaeth ofalus i'r Cais a phenderfynodd roi Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat i TA.

Ymgynghoriad

Ddim yn berthnasol.

Gweithredir gan: Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio

Amserlen Weithredu: Ar unwaith
